# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod o'r Is-Bwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neudd y Sir, Rhuthun, Dydd Llun, 30 Tachwedd 2015 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Bill Cowie, Stuart Davie a Cefyn Williams

Arsylwr - Y Cynghorydd Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Gyfreithiwr (AL), Swyddog Trwyddedu (NJ) a Gweinyddwyr y Pwyllgor (KEJ)

## 1 PENODI CADEIRYDD

Penodwyd y Cynghorydd Cefyn Williams yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod.

Roedd gweithdrefnau'r gwrandawiad wedi eu dosbarthu ynghynt i bawb a darparwyd copïau o'r Datganiad Polisi Trwyddedu yn y cyfarfod.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

## 3 DEDDF TRWYDDEDU 2003: CAIS I AMRYWIO TRWYDDED SAFLE - DEVINE, PWLL Y GRAWYS, DINBYCH

Cyflwynodd y Swyddog Trwyddedu adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ar -

(i) gais a oedd wedi dod i law gan Mr. John Sydney Wynne i amrywio Trwydded Safle mewn perthynas â Devine, Pwll y Grawys, Dinbych;

(ii) mae'r Drwydded Eiddo bresennol yn awdurdodi'r canlynol ar hyn o bryd -

| GWEITHGAREDD TRWYDDEDIG | DYDDIAU PERTHNASOL | AMSER O | AMSER HYD |
|---|---|---|---|
| Darparu Alcohol (i'w yfed ar y safle yn unig) | Llun-Sul | 12:30 | 00:30 |
| Chwarae Cerddoriaeth sydd wedi'i Recordio | Llun-Sul | 12:30 | 00:30 |
| Lluniaeth Hwyr y Nos (Dan Do ac yn yr Awyr Agored)* | Llun-Sul | 23:00 | 00:30 |

(*daeth darparu Lluniaeth Hwyr y Nos yn weithgaredd trwyddedig rhwng 23.00 a 05.00 o'r gloch yn unig)

(iii) mae’r ymgeisydd wedi cyflwyno cais ar gyfer amrywio fel a ganlyn -

| GWEITHGAREDD TRWYDDEDIG | DYDDIAU PERTHNASOL | AMSER O | AMSER HYD |
|---|---|---|---|
| Darparu cerddoriaeth fyw (Dan Do) | Gwener – Sul<br>Gwyliau Cyhoeddus | 20:00<br>20:00 | 02:00<br>02:00 |
| Darparu Cerddoriaeth wedi’i Recordio (Dan Do) | Iau - Sul<br>Gwyliau Cyhoeddus | 20:00<br>20:00 | 02:00<br>02:00 |
| Gwerthu Alcohol (i’w yfed yn yr eiddo ac oddi ar yr eiddo) | Sul - Iau<br>Gwen - Sad<br>Gwyliau Cyhoeddus | 11:59<br>11:59<br>11:59 | 01:00<br>02:00<br>02:00 |
| Lluniaeth Hwyr y Nos (Dan Do ac Awyr Agored) | Gwen - Sad<br>Sul<br>Nos Galan | 12:00<br>11:00<br>10:00 | 01:30<br>12:30<br>02:00 |
| Adloniant o ddisgrifiad tebyg i gerddoriaeth fyw, cerddoriaeth wedi’i recordio neu berfformiad dawns (Dan do) | Llun - Iau<br>Gwen - Sad<br>Sul<br>Nos Galan | 10:00<br>10:00<br>11:00<br>10:00 | 00:00<br>01:30<br>12:30<br>02:00 |
| Gwerthu Alcohol (i’w yfed yn yr eiddo ac oddi ar yr eiddo) | Sul - Iau<br>Gwen - Sad<br>Gwyliau Cyhoeddus | 23:00<br>23:00<br>23:00 | 01:00<br>02:00<br>02:00 |

(iv) roedd un sylw ysgrifenedig wedi dod i law gan barti sydd â diddordeb mewn ymateb i'r hysbysiad cyhoeddus (Atodiad A i'r adroddiad) sy’n ymwneud â niwsans sŵn posibl o ganlyniad i gerddoriaeth uchel ynghyd â'r aflonyddwch a allai gael ei achosi gan bobl yn gadael yr eiddo yn hwyr yn y nos ac yn ystod oriau mân y bore;

(v) gwrthwynebwyd y cais gan Heddlu Gogledd Cymru ond yn dilyn trafodaethau gyda'r ymgeisydd lluniwyd nifer o amodau sydd wedi eu cynllunio i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ymhellach (Atodiad B i’r adroddiad) ac ar y sail honno gofynnodd yr Heddlu, pe byddai’r aelodau o blaid cymeradwyo’r cais, eu bod yn ystyried cynnwys yr amodau hynny o fewn Atodlen Weithredu’r eiddo;

(vi) mae Awdurdod Cynllunio’r Cyngor wedi rhoi gwybod bod rhywfaint o anghysondeb rhwng y defnydd awdurdodedig presennol o'r eiddo i'r hyn a gynigir yn y cais.

(vii) yr Atodlenni Gweithredu arfaethedig a phresennol (Atodiad C a D i'r adroddiad);

(viii) mae angen ystyried y cais gan roi ystyriaeth ddyladwy i Ganllawiau a Datganiad Polisi Trwyddedu’r Cyngor; deddfwriaeth arall berthnasol a sylwadau perthnasol a dderbyniwyd, a’r

(ix) dewisiadau sydd ar gael i'r pwyllgor wrth benderfynu ynglŷn â’r cais.

Cafwyd crynodeb o’r adroddiad gan y Swyddog Trwyddedu ac amlinellodd ffeithiau’r achos. Ers cyhoeddi'r adroddiad roedd cyfryngu wedi bod yn mynd rhagddo rhwng yr Ymgeisydd a'r parti sydd â diddordeb o'r eiddo cyfagos a oedd wedi arwain at gael gwared â seinydd o’r wal rhyngddynt dros dro. Roedd y parti â diddordeb wedi bod yn fodlon â’r lefelau sŵn ers hynny ac wedi cytuno i dynnu ei sylw yn ôl os rhoddir gwarantau gan yr Ymgeisydd am lefelau sŵn yn y dyfodol. Er gwaethaf ddarparu sicrwydd ar lafar yn y cyswllt hwnnw roedd yr Ymgeisydd wedi methu i gadarnhau’r cytundeb hwnnw yn ysgrifenedig ac felly mae'r sylw yn dal i sefyll. O ran yr anghysondeb a amlygwyd gan yr Adran Gynllunio am ddefnydd awdurdodedig o'r safle, dywedwyd wrth yr aelodau bod yr Ymgeisydd yn mynd i'r afael â'r mater hwnnw yn uniongyrchol gyda'r Adran Gynllunio.

**CYFLWYNIAD YR YMGEISYDD**

Nid oedd yr Ymgeisydd, Mr. John Sydney Wynne yn bresennol yn y cyfarfod a chymerwyd bod manylion y cais, gan gynnwys yr Atodlen Weithredu wedi’u darllen.

Roedd yr Is-bwyllgor yn siomedig nad oeddent yn gallu holi'r Ymgeisydd neu ofyn am sicrwydd ynghylch camau i roi sylw i niwsans sŵn posibl o ystyried y pryderon a godwyd gan y parti â diddordeb ac agosrwydd preswylwyr eraill yn yr ardal.

**SYLWADAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Nid oedd cynrychiolydd o Heddlu Gogledd Cymru yn bresennol. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am y sylwadau ysgrifenedig a nifer o amodau a gytunwyd rhwng yr Ymgeisydd a Heddlu Gogledd Cymru er mwyn hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ymhellach (i'w weld yn Atodiad B i'r adroddiad). Gofynnodd yr Heddlu, os byddai’r aelodau'n penderfynu caniatáu'r cais, eu bod yn ystyried ymgorffori’r amodau hynny o fewn yr Atodlen Weithredu.

**SYLWADAU CYHOEDDUS GAN RAI Â DIDDORDEB**

Roedd un sylw ysgrifenedig (Atodiad A i'r adroddiad) wedi ei dderbyn gan barti â diddordeb - Mr. G. Hughes o Bwll y Grawys yn gwrthwynebu'r cais ar sail sŵn ac aflonyddwch.

Nid oedd Mr. Hughes yn bresennol i gefnogi ei sylw a nododd yr aelodau ganlyniadau'r cyfryngu parhaus rhwng Mr. Hughes a'r Ymgeisydd fel y nodwyd gan y Swyddog Trwyddedu yn ystod cyflwyno'r adroddiad. Nodwyd bod yr Ymgeisydd wedi methu â darparu'r sicrwydd ysgrifenedig y gofynnodd y parti â diddordeb amdano er ei fod wedi dweud y byddai'n gwneud hynny.

**GOHIRIAD I YSTYRIED Y CAIS**

Ar y pwynt hwn (9.45 am) gohiriwyd yr Is-bwyllgor Trwyddedu i ystyried y cais.

**Y PENDERFYNIAD A'R RHESYMAU DROS WNEUD Y PENDERFYNIAD**

***PENDERFYNWYD*** *gwrthod y cais am amrywiad.*

Dyma oedd y rhesymau am y penderfyniad –

Methodd yr Ymgeisydd fod yn bresennol yn y gwrandawiad i gefnogi ei gais. Teimlai'r Is-bwyllgor Trwyddedu fod methiant yr Ymgeisydd i fod yn bresennol yn amharchus i'r Is-bwyllgor o ystyried ei fod yn gofyn am gynnydd mewn oriau ar ei drwydded. Yn absenoldeb yr Ymgeisydd roedd rhaid i'r Is-bwyllgor ystyried y cais yn seiliedig ar y dystiolaeth ger ei fron yn unig a rhoddodd aelodau ystyriaeth ddyledus i'r cais a manylion a oedd wedi'u cynnwys ynddo a'r gwrthwynebiadau a gyflwynwyd gan Mr. G. Hughes. Nid oedd yr Is-bwyllgor yn gallu holi'r Ymgeisydd am yr effaith bosibl y byddai'r cynnydd arfaethedig mewn oriau yn ei gael ar breswylwyr yn yr ardal leol, yn enwedig Mr. Hughes. Oherwydd agosrwydd y preswylydd, a phreswylwyr eraill yn lleoliad y safle, penderfynodd yr Is-bwyllgor y byddai effaith andwyol o ganlyniad i gynnydd mewn oriau ar lefelau niwsans cyhoeddus, yn enwedig lefelau sŵn yn dod o'r eiddo. Ymhellach, byddai cynnydd mewn oriau yn arwain at lefel annerbyniol o drosedd ac anhrefn yn y lleoliad. Nid oedd yr Ymgeisydd wedi darparu unrhyw beth i'r Is-bwyllgor a fyddai'n eu bodloni y gallai'r Amcanion Trwyddedu gael eu bodloni'n briodol. O ganlyniad cafodd y cais am amrywio'r drwydded ei wrthod.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.00 a.m.